Gwaith nad oes gymaint o sôn amdano efallai yw ein gwaith yn achub anifeiliaid fferm, boed ein swyddogion sydd wedi'u hyfforddi i ddefnyddio rhaffau yn achub defaid sy'n sonnd ar waelod clogwyn neu ein harolygwyr sydd wedi'u hyfforddi i achub mewn llifogydd a dŵr cyflym yn achub anifeiliaid fferm sydd wedi'u hynysu gan ddŵr.

Rydym yn awyddus iawn i adfywio hen bartneriaethau sydd gennym gyda'r holl randdeiliaid ledled y sector ffermio a gobeithio y bydd hyn yn gallu helpu i godi ymwybyddiaeth am faterion y sonnir amdanynt yn yr adroddiad hwn, yn ogystal â phryderon pwysig eraill megis llusernau awyr a tharfu ar ddefaid. Y nod y dylem ei rannu yw diwydiant amaeth cryf yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar les ac sy'n sicrhau bwyd o Gymru sydd â safonau lles uwch.



Rhagair

REBECCA EVANS AC, Y DIRPRWY WEINIDOG FFERMIO A BWYD

Ym mis Gorffennaf 2014, cafodd y Fframwaith ar gyfer Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru (AHWF) ei lansio. Mae hwn yn gyfle pwysig i ni symud at ffordd wahanol o weithio. Mae'n canolbwyntio ar sicrhau'r safonau uchaf o ran iechyd a lles i anifeiliaid ar yr un pryd â diogelu iechyd y cyhoedd a chyfrannu'n gadarnhaol at yr economi a'r amgylchedd.

Mae gweledigaeth AHFW Cymru wedi'i chrisialu mewn nifer o ganlyniadau a rennir, sef bod gan Gymru:

- anifeiliaid iach a chynhyrchiol
- anifeiliaid sydd ag ansawdd bywyd da
- economi ffyniannus
- amgylchedd o ansawdd uchel
- a bod gan bobl ffydd a hyder yn y ffordd y mae ein bwyd yn cael ei gynhyrchu a'r ffordd y caiff iechyd y cyhoedd ei ddiogelu

Wrth osod safonau ar gyfer yr amodau i gadw ein hanifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd ynddynt, mae lles yr anifeiliaid yn bwysig iawn, yn anad dim oherwydd y cysylltiad rhwng iechyd a chynhyrchu.

Cynyddu y mae'r galw am gynhyrchu byd-eang, a bydd sicrhau iechyd a lles i dda byw fferm yn cyfrannu at leihau effaith amgylcheddol ffermio i anifeiliaid eraill ac i bobl.

Elfen sylfaenol wrth atal clefydau yw datblygu diwydiant bwyd a ffermio sy'n gynaliadwy. Mae safonau gwarant fferm yn rhoi'r sicrwydd sylfaenol o gydymffurfio â safonau hwsmonaeth dda (cnydau/da byw) a lles. Un cam gweithredu yn y cynllun yw mynd ati i hyrwyddo a chefnogi gwella achrediaidau a gwarantau diogelwch bwyd cydnabyddedig er mwyn cyrraedd y safonau uchel yr ydym oll yn eu disgwyl.

Mae'n rhaid i'r gadwyn cyflenwi bwyd fedru sicrhau bwyd diogel a chynaliadwy o safon uchel er mwyn cadw ymddiriedaeth prynwyr. Mae diogelwch bwyd yn gyfrifoldeb ar y gadwyn cyflenwi bwyd gyfan, gan gynnwys ffermwyr, proseswyr, manwerthwyr a phrynwyr. Rhaid i ffermwyr a thyfwyr gymryd pob gofal i sicrhau bod y cnydau a'r da byw a gynhyrchir ganddynt ar gyfer y farchnad yn ddiogel ac mai bychan yw'r risg o drosglwyddo afiechydon a gludir gan fwyd.

Mae cynllun gweithredu strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant bwyd a diod yn cynnig gweledigaeth o dwf gwyrdd. Busnesau yw ceidwaid ein hadnoddau naturiol, yn enwedig o ran y cyfrifoldeb amgylcheddol a chymdeithasol wrth gynhyrchu cynnyrch. Mae'n rhoi'r hyder i brynwyr yn y cartref ac yn sefydlu enw da yn fyd-eang am ansawdd a diogelwch.


Mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i gael ei sefydlu i fod yn ganolbwynt i'r sectorau bwyd a diod ehangach yng Nghymru. Bydd ganddo ran allweddol wrth sicrhau ein bod yn ymgorffori cynaliadwyedd, cystadleurwydd, effeithlonrwydd, cynhyrchiant, proffidioldeb a diogelwch bwyd ledled y diwydiant. Bydd y Bwrdd yn meithrin cysylltiadau â Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru i sicrhau cydweithio a chydweithredu er mwyn ein helpu i wneud hyn yn iawn.

Mae safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid yn cynnig cyfle marchnata yn y marchnadoedd domestig ac wrth allforio. Mae masnachu o fewn yr UE yn dibynnu ar gydymffurfio â chyfraith yr UE ar iechyd a lles anifeiliaid ac mae'n ofynnol cadw at safonau iechyd uchel wrth allforio i farchnadoedd byd-eang. Mae da byw iach hefyd yn cyfrannu at wella effeithlonrwydd cynhyrchu a sicrhau dyfalbarhad y diwydiant.




Rebecca Evans

Ystadegau Ffermio Cymru²



9,460,700
o ddefaid ac ŵyn



493,600

o fuchod (gan gynnwys gwartheg
godro a gwartheg eraill)




29%

o holl ddefaid y Deyrnas
Unedig i'w cael yng Nghymru



24,900
o foch



42,297
o ffermydd



23
o ladd-dai

FFEITHIAU A FFIGYRAU PWYSIG AR WAITH YR RSPCA GYDAG ANIFEILIAID FFERM YNG NGHYMURU YN 2013

YSTADEGAU RSPCA CYMRU

729 o gŵynion am anifeiliaid fferm yn ymwneud ag 20,813 o anifeiliaid. Cyfanswm o 11,372 o gŵynion am anifeiliaid yn ymwneud ag 56,627 o anifeiliaid.

O'r cyfanswm o 19,709 o anifeiliaid a gasglwyd – roedd - 12,206 yn anifeiliaid fferm. Roedd hyn yn 12,062 o ieir, 115 o ddefaid, 10 o wartheg ac 19 yn anifail arall.

YSTADEGAU ERLYN

Nifer yr achosion a gafwyd yn euog yn ymwneud ag anifeiliaid fferm a hefyd pob anifail.

2011 - 6 o gyfanswm o 239

2012 - 2 o gyfanswm o 248

2013 - 0 o gyfanswm o 297

FREEDOM FOOD

108 o aelodau yng Nghymru sy'n cynnwys tua 1.5 miliwn o anifeiliaid.

Mae ieir dodwy, defaid, moch, gwartheg eidion, lladd-dai a safleoedd pacio wyau i gyd yn y cynllun yng Nghymru.³

²<http://wales.gov.uk/docs/statistics/2014/140625-farming-facts-figures-2014-cy.pdf>

³Mae Freedom Food hefyd yn cynnwys gwartheg godro, hwyaid, ieir bwyta, tyrcwn, eog a brithyll, er nad oes rhai o'r rhain yng Nghymru ar hyn o bryd yn anffodus.

Cyflwyniad

Mae Dangosyddion Lles Anifeiliaid a Bwyd yn dwyn ynghyd am y tro cyntaf gasgliad o ddangosyddion sy'n taflu goleuni ar faterion lles yn ymwneud ag anifeiliaid sy'n cael eu magu ar gyfer bwyd yng Nghymru. Mae hwn yn ddilyniant mewn cyfres sy'n cynnwys yr adroddiad *Dangosyddion Lles Anifeiliaid Cymru 2011* a ystyriai nifer o rywogaethau ac arferion, *Dangosyddion Lles Cŵn 2012* a *Dangosyddion Lles Ceffylau 2013*, ac mae modd gweld y cyfan ohonynt yn: www.politicalanimal.org.uk/wales

Mesur lles anifeiliaid

Cipolwg yn unig yw'r casgliad dangosyddion hwn i rai o'r materion pwysicaf sy'n ymwneud â lles anifeiliaid fferm ac mae'n dioddef, fel y gwna unrhyw fynegai, oherwydd diffyg data gwrthrychol. Mae'r RSPCA ers tro byd wedi sylweddoli pwysigrwydd mynd ati i fesur lles anifeiliaid ond mae heriau yn parhau o ran cael gafael ar ddata, cloddio amdano a dadansoddi data o ffynonellau eraill.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae anifeiliaid fferm wedi dod yn destun mwyfwy o reoleiddio o ran rheoli clefydau a'r gallu i olrhain, ac eto, fel y daw'n amlwg yn yr adroddiad hwn, nid ydym yn gwybod llawer am y safonau magu sy'n uwch na'r gofynion cyfreithiol a nodir mewn deddfwriaeth. Er gwaethaf hyn, mae arolygon barn diweddar yn dangos pa mor bwysig yw hi i brynwyr⁴ bod anifeiliaid yn cael eu magu i safon uwch ac felly byddai o fudd i wneuthurwyr polisi, a'r gymdeithas yn gyffredinol, ddeall pa anifeiliaid yng Nghymru, a'r nifer ohonynt, sy'n elwa o amodau gwell cynlluniau sy'n canolbwyntio ar les.

Ffactorau eraill

Mae materion eraill sy'n ymwneud â'r byd bwyd a ffermio yn peri pryder i'r RSPCA, ond sydd heb eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Er enghraifft, mae'r defnydd o lusernau awyr yn peryglu llawer o anifeiliaid fferm (yn ogystal â bywyd gwyllt) yng Nghymru drwy eu llyncu, neu gael eu clymu a'u caethiwo ynddynt, neu oherwydd y perygl o dân. Rydym yn gobeithio y bydd deddfwriaeth yn gwahardd defnyddio'r llusernau hyn, ond yn y cyfamser mae Llywodraeth Cymru wedi annog cynghorau i gyfyngu ar eu defnydd mewn manau cyhoeddus. Yn y blynyddoedd diwethaf mae pump Awdurdod Lleol yng Nghymru – sef Caerffili, Conwy, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro a Sir Gâr – wedi gwahardd rhyddhau llusernau awyr ar dir sy'n eiddo i'r cyngor ac mae RSPCA Cymru yn parhau i gydweithio'n agos ag Awdurdodau Lleol eraill yn y gobaith y bydd modd cyflwyno rhagor o waharddiadau gwirfoddol.

Hefyd, trwy sicrhau bod safonau lles anifeiliaid uwch yn cael sylw mewn gwersi Technoleg Bwyd, mae gan ysgolion Cymru ran bwysig i'w chwarae wrth feithrin dealltwriaeth o'r gwahanol ffyrdd y gall anifeiliaid gael eu magu ar gyfer cynhyrchu bwyd. Cynhaliodd RSPCA Cymru arolwg ar bob un o ysgolion uwchradd Cymru ac er mai dim ond canran fach a roddodd ddata, dangosodd y ffurflenni a ddychwelwyd fod 62 y cant o ysgolion yn cynnwys safonau lles anifeiliaid uwch mewn gwersi ar gynhyrchu bwyd yng Nghyfnod Allweddol 3; a 90 y cant yn cynnig hwn ar lefel TGAU. Byddem yn hoffi gweld hyn yn dod yn rhan annatod o addysg i blant iau hefyd.

Y dangosyddion

Er nad yw'n rhestr gyflawn o bell ffordd, mae pob un o'r dangosyddion yn yr adroddiad hwn yn nodi pryderon lles a'r sefyllfa bresennol yn ogystal ag argymhellion ar gyfer gwella. Rydym bob amser wedi ceisio defnyddio'r data mwyaf perthnasol a mwyaf diweddar sydd ar gael, ac mae hyn ynddo'i hun yn amlgu problem. Mae angen mwy o ddata arnom i wir ddeall pa mor eang a dwys yw'r broblem. Anogwn y llywodraeth a rhanddeiliaid i gydlynu ymhellach â'i gilydd er mwyn gallu nodi tueddiadau, a monitro effeithiolrwydd 'datrysiadau' yn deg.

Yn ogystal â meincnodi a dangos 'lle rydym' o ran lles anifeiliaid yng Nghymru, bwriad cyhoeddiad o'r natur hwn yw ceisio procio'r meddwl, annog newid a gwneud argymhellion ar sut y gellir gwneud gwelliannau. Mae'n bwysig am nifer o resymau, nid yn unig o safbwynt amddiffyn anifeiliaid, ac mae'n hanfodol ar gyfer hysbysu llywodraeth (yn genedlaethol ac yn lleol), rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd yng Nghymru. Y gobaith yw y gall fod yn ganllaw gwerthfawr i'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru o ran lles anifeiliaid fferm, gan arwain at adnabod a delio â phroblemau, sicrhau atebion, ac ailadrodd dysgu cadarnhaol ledled gwahanol faterion.

⁴Gweler adran *Ymwybyddiaeth y Cyhoedd yr adroddiad hwn*



Ymwybyddiaeth y Cyhoedd


PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Mae'n amlwg fod cynnydd wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf ym mhryder y gymdeithas ynghylch y ffordd y mae anifeiliaid yn ein cadwyn fwyd yn cael eu trin. Mae llawer o'r drafodaeth gyhoeddus wedi canolbwyntio ar ofnau ynghylch iechyd anifeiliaid ac afiechydon megis clwy'r traed a'r genau; ond mae ffactorau allweddol eraill, megis y gallu i olrhain, wedi dod i'r amlwg yn sgil y sgandal cig ceffyl. Mae cost ychwanegol wrth fagu anifeiliaid i safonau uwch sy'n llawer mwy na'r gofynion cyfreithiol, ac felly mae'n hanfodol bod gan brynwyr ryw fath o syniad am arferion ffermio a sut y gall galw am fwyd cyflymach a rhatach gael effaith andwyol ar safonau lles anifeiliaid.

Y SEFYLLFA BRESENNOL

Yn ein harolwg diweddar ar oedolion yng Nghymru, mae'n galonogol iawn fod 80 y cant⁵ yn dweud bod safonau lles wrth fagu anifeiliaid yn bwysig yn eu penderfyniadau prynu. Mae tystiolaeth yn dangos bod prynwyr yn gallu bod yn hynod bwerus wrth sicrhau newid, a'r enghraifft orau o hyn oedd y newid enfawr o brynu wyau gan ieir mewn cewyll i brynu wyau maes pan gytunwyd ar labelu gorfodol yn 2004 i gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth y cytunwyd arni yn 1999⁶ i wahardd cewyll batri moel o Ionawr 2012.

Yn gadarnhaol, roedd 74 y cant o'r rhai a holwyd⁵ yn adnabod o leiaf un o'r pedwar prif gynllun labelu yng Nghymru sy'n diffinio'u hunain i fod yn darparu bwyd â lles uwch, sef Safonau Sicrwydd Bwyd (Tractor Coch), Anifeiliaid Fferm Sicr Cymru, Freedom Food a Safon Organig Cymdeithas y Pridd.



Argymhelliaid yr RSPCA

Er mwyn sicrhau bod prynwyr yn gwybod am arferion lles anifeiliaid wrth gynhyrchu bwyd, mae'n bwysig bod plant yn deall yn well o ble y daw cig a chynhyrchion eraill sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid, a bod hynny yn rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol. Ond nid dyna ddiwedd yr addysg, fodd bynnag, mae'n hollbwysig fod holl negeseuon Llywodraeth Cymru ynghylch bwyd yn rhoi pwyslais mawr ar gysylltu egwyddorion lles anifeiliaid â'r cynhyrchu. Ffactor allweddol arall yw ystyr y gair 'ansawdd', gan y byddai'n rhesymol tybio y bydd prynwyr yn dehongli hwn i gynnwys safonau lles uwch i anifeiliaid - dylai ffactorau fel y rhain fod yn rhan annatod o wahanol strategaethau newydd Llywodraeth Cymru ynghylch bwyd yng Nghymru. Mae'r RSPCA yn argymhell bod y Bartneriaeth Cyngori ar Fwyd a Diod yn cael ei chomisynu i ystyried y materion hyn yn eu strategaethau. Fel y trafodir ar y dudalen dangosydd 'Labelu', mae rhoi'r wybodaeth ddigonol i brynwyr wneud penderfyniadau prynu hefyd yn hanfodol wrth gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd.

⁵Daw'r ffigyrau hyn o YouGov Plc. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,001 o oedolion o Gymru (18+ oed). Gwnaed y gwaith maes rhwng 4ydd a 8fed Medi 2014. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigyrau wedi cael eu pwysoli ac maent yn gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18+ oed).

⁶Mabwysiadwyd Cyfarwydddeb Cyngor Ewrop 1999/74/CE yn 1999 a daeth i rym yn 2012 – gweler tudalen 'Dangosydd Wyau' i gael rhagor o wybodaeth.



CMBRLND 400G	
73174	20
	1417
	6
£ 3.39	
£8.48 per kg	

BEST OF BRITISH		BEST OF BRITISH	
BEST OF BRITISH 		BEST OF BRITISH 	
BEST OF BRITISH T/1 PRK CHPLTA SAU 340G			
5000128752626	20		
CMT	417	£ 3.39	
008743318	0	£3.97 per kg	



Labelu

PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Fwy a mwy, mae prynwyr eisiau gwybodaeth fanwl ynghylch sut mae eu bwyd yn cael ei gynhyrchu. Mae llawer o bobl yng Nghymru yn gwneud ymdrech fwrriadol i drefnu eu harferion siopa er mwyn medru prynu cynhyrchion sydd â lles uwch. Mae labelu gwell, fodd bynnag, yn hanfodol i sicrhau bod gan bobl y wybodaeth angenrheidiol i wneud dewis gwybodus, ac yn gallu prynu bwyd sy'n bodloni'r safonau lles y maent yn dymuno eu cael.

Deddfwriaeth

CE 1760/2000 o ran cig eidion a chig llo.

Rheoliad UE 1337/2013 – o fis Mawrth 2015 o ran cigoedd moch, dofednod, defaid a geifr heb eu prosesu.

Y SEFYLLFA BRESENNOL

Mae deddfwriaeth newydd o Ewrop am gyflwyno labelu gorfodol ar darddiad cig heb ei brosesu sy'n dod o foch, defaid, geifr a dofednod. Bwriad hyn yw ceisio sicrhau nad yw'r wybodaeth am fwyd a roddir i brynwyr, gan gynnwys tarddiad neu darddle, yn gamarweiniol. Fodd bynnag, ychydig iawn o wybodaeth y bydd hyn yn ei roi ynghylch sut mae anifeiliaid ar gyfer bwyd wedi cael eu magu oherwydd yr ystod eang o safonau cynhyrchu a ddefnyddir mewn gwahanol wledydd.

Freedom Food yw'r unig gynllun gwarant fferm yn y Deyrnas Unedig sy'n benodol ar gyfer lles anifeiliaid, ac i fod yn rhan ohono rhaid bodloni safonau lles uwch yr RSPCA o enedigaeth anifail hyd at ei ladd, ac yn cynnwys cludiant. Ar hyn o bryd, mae tua 1.5 miliwn o anifeiliaid yng Nghymru wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn, a'r label yn rhoi hyder i brynwyr ynghylch lles yr anifail drwy gydol ei oes.

Mae 80 y cant o bobl yng Nghymru wedi dweud bod safonau lles anifeiliaid fferm yn bwysig wrth brynu bwydydd perthnasol. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw bod prynwyr yn cael digon o wybodaeth wrth brynu cynnyrch. Yn galonogol, roedd 74 y cant⁷ yn adnabod o leiaf un o'r pedwar prif gynllun labelu sydd yng Nghymru sy'n diffinio'u hunain i fod yn darparu bwyd â lles uwch, sef Safonau Sicrwydd Bwyd (Tractor Coch), Anifeiliaid Fferm Sicr Cymru, Freedom Food a Safon Organig Cymdeithas y Pridd. Yn rhy aml, fodd bynnag, caiff prynwyr eu hamddifadu o wybodaeth allweddol ar labeli, megis gwybodaeth am y 'Dull Cynhyrchu' neu'r 'Dull Lladd'.

Argymhelliad yr RSPCA

Cred RSPCA Cymru y dylid cyflwyno labelu 'Dull Cynhyrchu' ar gyfer yr holl gynnyrch cig a llaeth. Byddai hyn yn rhoi pwysau ar fanwerthwyr i stocio'r cynnyrch yr hoffai eu prynwyr ei gael. Rydym hefyd yn credu y dylai Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod gynnwys mwy o ffocws ar rôl labelu, gan annog cynhyrchwyr i roi gwell gwybodaeth i brynwyr ac amlinellu pwysigrwydd darparu gwybodaeth i'r cyhoedd. Yn ychwanegol at ddeddfau diweddar yr UE ar Wlad Tarddiad, byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r labelu ynghylch tarddiad neu darddle deunydd bwyd yn nodi o ba wlad yn y Deyrnas Unedig y daw'r cynnyrch.

“Mae safonau gwarant fferm yn rhoi'r sicrwydd sylfaenol o gydymffurfio â safonau da ar gyfer hwsmonaeth (cnydau/da byw) a lles. Mae iechyd a lles anifeiliaid yn effeithio ar ansawdd bwyd a thrwy helpu'r diwydiant i sicrhau'r safonau uchaf posibl, bydd barn y cyhoedd am gynhyrchion anifeiliaid o Gymru'n gwella. Bydd safonau uchel o iechyd a lles mewn anifeiliaid yn rhoi cyfle marchnata yn y farchnad ddomestig a'r farchnad allforio.”

Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod.⁸

⁷ Daw'r ffigurau hyn o YouGov Plc. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,001 o oedolion o Gymru (18+ oed). Gwnaed y gwaith maes rhwng 4ydd a 8fed Medi 2014. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigurau wedi cael eu pwysoli ac maent yn gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18+ oed).

⁸ [http://wales.gov.uk/docs/drah/publications/140611actionplanforfoodandrinkcy.pdf](http://wales.gov.uk/docs/drah/publications/140611actionplanforfoodanddrinkcy.pdf)



Ieir

PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Ieir bwyta, a elwir yn gyffredin yn 'brwyliaid', yw'r anifail tir sy'n cael ei ffermio fwyaf yng Nghymru. Yn anffodus, mewn llawer o ardaloedd, nid yw safonau magu, cludo a lladd ieir bwyta yn ddigon uchel i fodloni anghenion lles cymhleth ieir.

Er enghraifft, yng Nghymru y dwysedd stocio uchaf a ganiateir yn gyfreithiol yw 39kg fesul m². Pan fo'r dwysedd stocio yn fwy na 30kg fesul m², dangoswyd bod cynnydd sylweddol ym mha mor aml y ceir problemau lles difrifol, waeth beth yw ansawdd y rheolaeth neu fanyldeb lleoliad eu cadw. Gall dwyseddau uwch na 30kg fesul m² arwain at gyfyngu ar eu hymddygiad,⁹ sef cyfyngu ar allu'r adar i ymddwyn yn naturiol, megis ymestyn, lledu eu hadennydd a cherdded, oherwydd fod adar eraill yn eu rhwystro. Mae llai o le hefyd yn cyfyngu ar y cyfle i wneud ymarfer corff, ac mae adar sy'n llai actif yn fwy tueddol o fynd yn gloff. Yn ogystal, gall dwysedd stocio uwch ei gwneud hi'n anoddach rheoli amgylchedd yr adar yn briodol gan felly gyfrannu at wely gwael oddi tanynt, a hynny'n gallu cynyddu nifer yr achosion o friwiau ar goesau'r adar a'u difrifoldeb, yn ogystal ag amharu ar ansawdd yr aer a datblygu straen gwres mewn tywydd cynhesach.

Mae'r ffaith fod brwyliaid yn tyfu'n gyflym, amgylchedd moel a goleuo annigonol hefyd yn faterion pwysig eraill sy'n cael effaith sylweddol ar hyn o bryd ar les brwyliaid, ac mae'r ffactorau hyn oll hefyd yn gallu arwain at gloffni, anafiadau ar y croen, ac asgites.

Deddfwriaeth

Cyfarwydddeb Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 2007/43/CE.

Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) (Diwygio) 2010.

Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2010.

Y SEFYLLFA BRESENNOL

Yn 2013, roedd 129 o safleoedd yn ffermio 7,531,805 o frwyliaid yng Nghymru. Yn anffodus, nid oes cofrestr o'r systemau y mae'r adar hyn yn cael eu cadw ynddynt, sy'n golygu na allwn nodi pa gyfran sydd o bosibl yn cael eu magu o dan gynlluniau sy'n sicrhau lles uwch, megis Freedom Food. Eto, nid yw gofynion cyfreithiol a safonau'r diwydiant ei hun yn mynnu lefel lles sy'n foddhaol, a'r dyb yw bod y rhan fwyaf o frwyliaid a fagwyd yng Nghymru ond yn cael eu magu i gyrraedd y safonau hyn yn unig.

Mae patrymau prynwyr yn y blynyddoedd diwethaf wedi dangos mwy o ymwybyddiaeth ac awydd am gynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid sydd wedi cael eu magu i safonau lles uwch. Mae RSPCA Cymru yn credu bod newid sylweddol o fewn cyrraedd, sef newid wedi'i arwain gan brynwyr wrth iddynt brynu cynhyrchion sydd â lles uwch, ond mae gwybodaeth ychwanegol a bod cynnyrch ar gael yn allweddol i gyflawni hyn.

Argymhelliaid yr RSPCA

Cred RSPCA Cymru y byddai magu ieir i safonau lles uwch o fudd i'r anifail, y cynhyrchydd, y manwerthwr a'r prynwr/defnyddiwr.¹⁰ O'r herwydd, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i dynnu sylw at pa mor bwysig yw hi fod cynhyrchwyr yn ceisio rhagori ar safonau gofynnol. Mae'r RSPCA yn credu na ddylai'r dwysedd stocio ar gyfer brwyliaid fod yn fwy na 30kg am bob m², er bod ein safonau hefyd yn amlinellu pwysigrwydd cyfoethogi ychwanegol ar yr amgylchedd, golau naturiol, cyfnodau tywyll parhaus am hirach a defnyddio bridiau sy'n bodloni meini prawf lles penodol.

⁹ Pwyllgor Gwyddonol ar Iechyd Anifeiliaid a Lles Anifeiliaid. 2000. *The welfare of chickens kept for meat production (Broilers)*. Y Comisiwn Ewropeaidd, Brwsel, Gwlad Belg.

¹⁰ Adroddiad yr RSPCA – *Everyone's a Winner*.



CCTV mewn Llad-dai

PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Yn 2013, cafodd tua 14,700 o wartheg, 3,354,400 o ddefaid a 32,400 o foch eu lladd mewn lladd-dai yng Nghymru. Gan eu bod yn fodau byw sy'n teimlo pethau, rhaid ymdrechu i sicrhau bod y miliynau hyn o anifeiliaid fferm yn cael y diwedd mwyaf di-boen a thrugarog posibl i'w bywydau. Yn anffodus, o dro i dro, daw tystiolaeth i'r amlwg sy'n dangos bod anifeiliaid yn cael eu cam-drin mewn rhai lladd-dai. Mae'n amhosibl ar hyn o bryd gweld o'r setiau data swyddogol pa droseddau o'r fath sy'n digwydd yng Nghymru. Oherwydd hynny gallai teledu cylch cyfyng (CCTV) mewn lladd-dai fod yn allweddol wrth amddiffyn a monitro lles anifeiliaid, yn ogystal â gweithredu fel arf hyfforddi pwysig.

Deddfwriaeth

Deddf Lles Anifeiliaid (2006).

Rheoliadau Lles Anifeiliaid
Adeg eu Lladd (Cymru) 2014.

Y SEFYLLFA BRESENNOL





Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol ar ladd-dai yng Nghymru i gael systemau teledu cylch cyfyng ar waith, er ei bod yn ofyniad gorfodol yn safonau lles anifeiliaid fferm yr RSPCA ar gyfer yr holl ladd-dai y mae Freedom Food wedi'u cymeradwyo. Yn ogystal, mae 10 archfarchnad flaenllaw yn mynnu bod cig y maent yn eu prynu yn dod o ladd-dai sydd â theledu cylch cyfyng. Yn 2011, roedd 23 o ladd-dai yng Nghymru. Yn ôl yr Asiantaeth Safonau Bwyd, dim ond 17 y cant o'r rhain oedd â theledu cylch cyfyng yn rhannau stynio neu waedu'r safle. Mae amcangyfrifon yr ASB yn awgrymu y byddai pob system yn costio tua £2000 i'w cyflwyno.


Mae cefnogaeth gyhoeddus a gwleidyddol gref i'w gweld yn amlwg mewn perthynas â'r mater hwn. Mae 82 y cant¹¹ o'r cyhoedd yng Nghymru yn cefnogi cyflwyno teledu cylch cyfyng. Ar ben hynny, llwyddodd Datganiad Barn i ddenu cefnogaeth 34 o Aelodau'r Cynulliad – tua 70 y cant o ACau cymwys.¹² Mae e-ddeiseb Llywodraeth EM sy'n galw ar Defra i weithredu yn Lloegr wedi casglu 40,000 o lofnodion.

»»Argymhelliad yr RSPCA

Mae RSPCA Cymru yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gofyniad y dylai lladd-dai Cymru gael systemau teledu cylch cyfyng. Credwn fod hyn yn fesur cost-effeithiol ac ymarferol, a byddai'n cynyddu hyder prynwyr mewn cynnyrch o Gymru, yn cynnig amddiffyniad i staff lladd-dai ac, yn hollbwysig, yn helpu i sicrhau bod y safonau lles anifeiliaid priodol yn cael eu cyflawni.

I ba raddau y byddech yn cefnogi neu'n gwrthwynebu cyflwyno CCTV gorfodol mewn lladd-dai er mwyn sicrhau bod lles anifeiliaid cyn iddynt gael eu lladd yn cael ei fonitro yn fanylach?

	Cefnogi	82%
	Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu	13%
	Gwrthwynebu	3%
	Ddim yn gwybod	2%



¹¹Daw'r ffigyrau hyn o YouGov Plc. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,001 o oedolion o Gymru (18+ oed). Gwnaed y gwaith maes rhwng 4ydd a 8fed Medi 2014. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigyrau wedi cael eu pwysoli ac maent yn gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18+ oed).

¹²OPIN-2012-0017; Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai. Codwyd gan Rebecca Evans AC, Hydref 2012.



Caffael yn y Sector Cyhoeddus

PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Mae'r pwysau i gael bwyd rhad yn fwy yn y sector gwasanaeth bwyd nag unrhyw le arall. Mae'n aml yn amgylchedd lle gall prynwyr anghofio materion lles anifeiliaid gan eu bod yn prynu pryd o fwyd yn hytrach na chynnyrch bwyd unigol megis wrth siopa mewn archfarchnad neu siop gig. Fodd bynnag, mae maint y diwydiant yn ei gwneud yn allweddol i unrhyw gynnydd cynaliadwy hirdymor yn y nifer sy'n defnyddio cynlluniau lles uwch.

Deddfwriaeth

2014 Cyfarwyddeb Gaffael
Ewropeaidd 2014/24/UE,
2014/23/UE ac 2014/25/UE.

Y SEFYLLFA BRESENNOL


Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario tua £70m ar fwyd bob blwyddyn,¹³ a chaffael bwyd llywodraeth leol yn cyfrif am dros hanner y gwariant¹⁴ hwn. Oherwydd y pwysau ar arian cyhoeddus, lansiodd Llywodraeth Cymru yn Nhachwedd 2013 Wasanaeth Caffael Cenedlaethol gyda'r bwriad iddo sicrhau contractau cydweithredol i gael yr effeithlonrwydd gorau posibl ac i ddarparu mwy o gyfleoedd i gyflenwyr o Gymru. Mae Llywodraeth Cymru ar sector cyhoeddus wedi'u rhwymo gan Gyfarwyddebau'r UE ar gaffael cyhoeddus.¹⁵ Mae cyfarwyddebau newydd a fabwysiadwy eleni nawr yn caniatáu ystyried 'amcanion cymdeithasol cyffredin'. Gall y ffactorau hyn gynnwys pryderon cymdeithasol neu amgylcheddol.

Yn ôl arolwg gan yr RSPCA o bob Awdurdod Lleol yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2014, o'r 20 a atebodd roedd 19 yn ystyried meini prawf lles anifeiliaid fel rhan o'u proses gaffael bwyd. Fodd bynnag, er bod bron pob awdurdod yn mynnu bod wyau yn dod o ier buarth a bod cig yn dod â sicrwydd fferm, mae elfennau lles y safonau sicrwydd fferm yn amrywio'n sylweddol yn ôl meini prawf pob Awdurdod Lleol unigol a phob un ohonynt yn agored i ddehongliad yr awdurdod ei hun.

Ym mis Medi 2010 pleidleisiodd mwyafrif clir o'r Aelodau, staff a gweision sifil a oedd wedi'i lleoli yn Nhŷ Hywel ym Mae Caerdydd o blaid cael y Cynulliad Cenedlaethol i newid yn gyfan gwbl i gaffael cynhyrchion eog ac wyau o ffynhonnell a gymeradwywyd gan Freedom Food. Hwn oedd y ddeddfwrfa gyntaf yn y Deyrnas Unedig i weithredu menter o'r fath ac mae'n arwydd cryf o ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i les anifeiliaid o fewn ei gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Argymhelliaid yr RSPCA

Dylai Llywodraeth Cymru geisio adlewyrchu'r Cynulliad a sicrhau bod cynhyrchion sydd â lles uwch yn ofynnol yn ei gontractau drwy'i holl swyddfeydd a safleoedd ledled Cymru. Dylai hefyd geisio mireinio ystyr diffiniad Cyfarwyddeb newydd yr UE o 'amcanion cymdeithasol' er mwyn cydnabod yn benodol fod bwydydd sydd â lles uwch yn ystyriaeth allweddol, yn ogystal â cheisio rhoi mwy o eglurder a diffiniad cenedlaethol i les uwch. Bydd hyn yn ei dro yn sicrhau gwell cysondeb ledled yr holl Awdurdodau Lleol.



Arolwg barn – 87 y cant¹⁶ o holl oedolion Cymru yn gyffredinol yn meddwl ei bod yn bwysig y dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus gael bwydydd sy'n tarddu o anifeiliaid sydd wedi'u labelu i ddangos safonau uwch o ran lles anifeiliaid.

¹³<http://www.assemblywales.org/research%20documents/sustainable%20public%20sector%20food%20procurement%20-%20research%20paper-19102012-239644/12-046-cymraeg.pdf>

¹⁴<http://prp.wales.gov.uk/planners/food/foodprocp/>

¹⁵http://europa.eu/rapid/press-release_MEX-14-0328_en.htm

¹⁶Daw'r ffigurau hyn o YouGov Plc. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,001 o oedolion o Gymru (18+ oed). Gwnaed y gwaith maes rhwng 4ydd a 8fed Medi 2014. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigurau wedi cael eu pwysoli ac maent yn gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18+ oed).



Wyau ac Ieir Dodwy

PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Mae yna sawl mater lles allweddol yn ymwneud ag ieir dodwy sy'n cael eu cadw mewn cewyll. Cafodd cewyll batri moel confensiynol eu gwahardd yn 2012, ond mae cewyll batri 'wedi'u cyfoethogi' yn cael eu caniatáu ac yn dal i gael eu defnyddio heddiw. Dim ond lleiafswm o 50cm² o ofod ychwanegol y mae'r rhain yn ei roi i bob iâr, o'i gymharu â'r cewyll batri confensiynol sydd bellach wedi'u gwahardd. Dengys tystiolaeth nad oes yr un o'r systemau cewyll wedi'u cyfoethogi yn ddigonol i fodloni holl anghenion corfforol nac ymddygiadol yr adar.¹⁷ Mae systemau di-gaets neu systemau 'amgen', sy'n cynnwys buarth, ysgubor neu organig, yn rhoi modd i ieir symud o gwmpas yn rhydd ac ymddwyn mewn ffordd fwy naturiol megis crafu am fwyd a rowlio mewn llwch.

Deddfwriaeth

Cyfarwyddeb Cyngor Ewrop
99/74/CE.

Rheoliadau Lles Anifeiliaid a
Ffermïr (Cymru) 2007.

Deddf Lles Anifeiliaid (2006).

Y SEFYLLFA BRESENNOL

Yn 2014, mae'r mwyafrif o ieir dodwy yng Nghymru yn cael eu magu mewn amgylchedd ddi-gaets, gyda chyfanswm o 1,932,312 o ieir yn cael eu cadw mewn systemau buarth, organig neu ysgubor a 396,172 mewn systemau cewyll batri 'wedi'u cyfoethogi'. Mae yna 350 o ffermydd ieir dodwy yng Nghymru, a dim ond tair o'r rhain sy'n cynhyrchu wyau o ieir mewn system cewyll. Wedi dweud hyn, mae nifer fawr iawn o ieir ar y tair fferm hyn, sy'n golygu bod y tri chynhyrchwr yma yn gyfrifol am 17 y cant o gyfanswm yr adar. Mae'n hynod o galonogol serch hynny fod 83 y cant o holl ieir Cymru yn cael eu magu mewn systemau lles uwch ar hyn o bryd.


Argymhelliad yr RSPCA

Cred yr RSPCA y dylai pob iâr gael ei chadw mewn system buarth neu ysgubor sydd wedi eu rheoli'n briodol lle gall ieir gael safonau lles uwch o'u cymharu ag mewn cewyll. Hoffai'r Gymdeithas petai pob cawell yn cael ei wahardd a bod pob system ddi-gaets yn cyd-fynd â safonau lles yr RSPCA ar gyfer ieir dodwy. Fel arall, o ddatblygu label tarddiad Cymreig ar gyfer wyau a gynhyrchir yng Nghymru a sicrhau nad oes systemau caets yn bodoli yma, yna byddai'r label yn gyfystyr â lles uwch.¹⁸ Byddai'r RSPCA yn hoffi gweld dwy strategaeth Llywodraeth Cymru – Lles Anifeiliaid a Bwyd – yn adlewyrchu'r dyhead hwn, ac yn wir y ceir rhaglen i ymgysylltu â chynhyrchwyr systemau cewyll er mwyn eu hannog i droi yn gyfan gwbl i systemau heb gewyll.

Nifer yr ieir yng Nghymru

Mewn cawell	396,172	17%
Ysgubor	93,469	4%
Maes/buarth	1,795,495	77%
Organig	43,348	2%

Cyfanswm 2,328,484



¹⁷The case against cages: Evidence in favour of alternative systems for laying hens, 2005 RSPCA.

¹⁸<http://science.rspca.org.uk/sciencegroup/farmanimals/standards/layinghens>



CYMRU

Back our campaign to always
stun before slaughter
No exceptions



Cefnogwch ein hymgyrch
cynio anifeiliaid cy
eu lladd bob tro

Dim eithriadau

rspca.org.uk/wales

Lladd Anifeiliaid heb eu Stynio

PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Mae'r gyfraith bresennol yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i anifeiliaid gael eu stynio cyn eu lladd, ond mae eithriadau ar gyfer rhai cymunedau. Mae tystiolaeth wyddonol yn dangos bod yr arfer o ladd heb stynio yn achosi dioddefaint diangen i'r anifeiliaid. Awgryma barn arbenigol fod anifeiliaid fferm sy'n cael eu lladd drwy'r dull hwn yn profi poen a gofid sylweddol iawn ac arweiniodd hyn at Bwyllgor Lles Anifeiliaid Fferm (yna 'y Cyngor') yn ei adroddiad yn 2003 ar les anifeiliaid adeg eu lladd yn argymhell bod: '...lladd heb stynio yn gyntaf yn annerbyniol' ac mae'n annog diddymu'r eithriad presennol yn y gyfraith.¹⁹

Deddfwriaeth

Cyfarwyddeb Cyngor Ewrop (CE)
rhif 1099/2009.

Deddf Lles Anifeiliaid (2006).

Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014.

Y SEFYLLFA BRESENNOL

Mae lladd anifeiliaid heb eu stynio wedi'i wahardd o dan gyfraith Ewrop, ond mae gan aelod-wladwriaethau y dewis i ddarparu eithriadau ar gyfer dulliau lladd y Shechita (Iddewig) a Halal (Mwslimaidd). Yng Nghymru, mae'r eithriadau hyn yn bodoli o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014. Gellid diwygio'r ddeddfwriaeth hon yng Nghymru drwy offeryn statudol i roi diwedd ar yr eithriadau. Mae nifer o wledydd eraill yn gwahardd lladd anifeiliaid heb eu stynio, gan gynnwys Seland Newydd, Denmarc, Sweden, Gwlad Pwyl a Norwy. Mae tebygrwydd pwysig â Chymru yn achos Seland Newydd; mae gan y wlad honno farchnad allforio gref i'r Emiraethau Arabaidd Unedig ac nid yw'r farchnad honno wedi'i llesteirio gan y gwaharddiad ar ladd heb stynio.

Mae mwyafrif llethol y cyhoedd yng Nghymru yn cefnogi rhoi terfyn ar yr eithriadau cyfredol. Mae 80 y cant²⁰ o'r rhai a holwyd yn cefnogi rhoi diwedd ar ladd anifeiliaid heb eu stynio, gyda 59 y cant yn teimlo'n gryf o blaid y symudiad hwn. Un lladd-dy yng Nghymru sydd ar hyn o bryd yn lladd anifeiliaid drwy'r dull o beidio â'u stynio'n gyntaf. Yn ddiweddar cafodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gasglu data misol ar nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu lladd drwy'r dull hwn yn y lladd-dy dan sylw. Yn gynharach eleni, bu i RSPCA Cymru, gyda chefnogaeth Cymdeithas Milfeddygon Prydain, lansio deiseb yn gofyn i'r eithriadau ddod i ben. Rydym wedi'n calonogi'n eithriadol gan y gefnogaeth i'r ymgyrch hon, gyda miloedd yn llofnodi i gefnogi'r ymgyrch o fewn ychydig o fisodd. Yn Lloegr, mae deiseb Llywodraeth EM sy'n galw ar Defra i weithredu wedi denu mwy na 78,000 o lofnodion. Yn unol ag arfer da wrth labelu bwyd (gweler yr adran yn ymwneud â labelu yn yr adroddiad hwn), dylai prynwyr o leiaf wybod a ydynt yn prynu cig anifeiliaid nad ydynt wedi eu stynio cyn eu lladd ai peidio. Nid oes gofyniad i labelu cig yn y modd hwn ar hyn o bryd, felly gall y cyhoedd yn anfwriadol brynu - ac felly gefnogi - arfer y maent yn ei wrthwynebu.

Argymhelliaid yr RSPCA

Mae RSPCA Cymru yn credu y dylai Llywodraeth Cymru roi diwedd ar yr eithriadau presennol i ladd anifeiliaid heb eu stynio yng Nghymru. Byddai mwyafrif helaeth o bobl Cymru yn cefnogi'r cam hwn ac, yn ein barn ni, byddai'n ddatganiad cadarnhaol i weddill y Deyrnas Unedig a'r byd o ran y mater pwysig hwn yn ymwneud â lles anifeiliaid. Yn y cyfamser, dylai cig o anifeiliaid nad ydynt wedi'u stynio cyn eu lladd gael ei labelu'n glir i ddangos hynny er mwyn i brynwyr fedru gwneud dewis gwybodus.

80% y cant o'r rhai a holwyd yn cefnogi peidio lladd anifeiliaid heb eu stynio

¹⁹<http://www.rspca.org.uk/adviceandwelfare/farm/slaughter/religiouslaughter>

²⁰Daw'r ffigyrau hyn o YouGov Plc. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,001 o oedolion o Gymru (18+ oed). Gwnaed y gwaith maes rhwng 4ydd a 8fed Medi 2014. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigyrau wedi cael eu pwysoli ac maent yn gynrychioladol o holl oedolion Cymru (18+ oed).



Cludo Anifeiliaid Byw

PRYDERON LLES ANIFEILIAID

Bob blwyddyn mae miliynau o anifeiliaid fferm, gan gynnwys lloi a defaid, yn cael eu cludo ar hyd a lled Ewrop i'w pesgi ymhellach a'u lladd. Os na roddir blaenoriaeth i les yr anifeiliaid wrth eu cludo'n fyw, mae perygl mawr y bydd yr anifeiliaid yn dioddef. Hyd yn oed pan fo rhagofalon wedi'u cymryd, mae'r driniaeth yn ystod llwytho a dadlwytho o gerbydau yn gallu bod yn straen fawr. Wrth eu cludo gall anifeiliaid wynebu golygfeydd, symudiadau, synau ac arogleuon dieithr ac anifeiliaid anghyfarwydd. Gall straen gwres, diffyg awyru da a chyfnodau hir heb fwyd, dŵr neu orffwys ychwanegu at broblemau lles.

Deddfwriaeth

Gorchymyn Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cludo) (Cymru) 2007 wedi'i gweithredu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer gweinyddu a gorfodi Cyfarwyddeb y Cyngor 1/2005.

Y SEFYLLFA BRESENNOL

Er y daw'r anifeiliaid o Gymru a phob cwr o'r Deyrnas Unedig, porthladdoedd Dover a Ramsgate yw'r prif borthladdoedd fferi yn Lloegr sy'n gwasanaethu'r fasnach hon, ac eto nid oes ganddynt gyfleusterau priodol i ddadlwytho anifeiliaid nac i ddelio ag argyfwng. Yn ein barn ni, nid oes digon o archwilio ac arolygu ar y llwythi sy'n gadael y porthladdoedd hyn, a dim ond 30 y cant ar y mwyaf o bosibl – yn ôl yr hyn a ddeallwn – sy'n destun archwiliad o unrhyw fath wrth gyrraedd y porthladd. Er mwyn cyrraedd Dover a Ramsgate mae llawer o anifeiliaid yn wynebu teithiau hirfaith ar ffyrdd y Deyrnas Unedig cyn wedyn gael eu llwytho ar fferi anaddas a adeiladwyd yn wreiddiol i gludo tanciau ar afon. Caiff anifeiliaid mor ifanc â phytthefnos oed eu gorfodi i ddiodeff y daith flinedig hon, cyn mynd i amodau magu a fyddai'n anghyfreithlon yng Nghymru. Credwn na fyddai unrhyw ffermwr na chynhyrchydd anifeiliaid byth am weld y canlyniad hwn i'r anifeiliaid y maent wedi'u magu yn ofalus.

Mae'r RSPCA ac eraill wastad wedi cefnogi masnach carcass yn unig, ond tra bod y fasnach mewn anifeiliaid byw yn bodoli bydd yr RSPCA yn parhau i geisio sicrhau y cedwir yn llwyr ac yn llawn at gyfreithiau presennol. Rydym hefyd yn gweithio i sicrhau terfyn ar y masnachu hwn ar anifeiliaid fferm sy'n dal yn fyw, masnachu sy'n aml yn greulon ac yn ddiangen. Mae mwy na 90 y cant o'r fasnach mewn lloi bellach wedi'i disodli drwy eu magu yn y Deyrnas Unedig, felly defaid yn awr yw mwyafrif helaeth yr anifeiliaid sy'n mynd i'r cyfandir. Er ei bod yn anodd asesu faint o ddefaid o Gymru sy'n cael eu cludo i'r cyfandir, gallai ymgyrch 'prynwch gig oen o Gymru' helpu i sicrhau bod marchnad gartref ar gyfer yr anifeiliaid hyn yn y Deyrnas Unedig ac felly yn ddewis amgen i'r fasnach dramor.

Argymhelliad yr RSPCA

Gyda'i gilydd, dylai Llywodraeth Cymru, cynhyrchwyr, ymgyrchwyr a'r cyhoedd anelu at leihau cymaint ag y bod modd ar yr holl gludo ar anifeiliaid byw ac, yn wir, rhoi diwedd ar bob hirdaith i anifeiliaid byw a symud tuag at fasnachu 'carcass yn unig'. Ym mhob agwedd ar bolisi Llywodraeth Cymru, dylid cael mwy o bwyslais ar gefnogi'r farchnad 'ar y bachyn, nid ar eu traed', gan gynnwys cefnogi lladd-dai lleol. Yn ogystal, gall Llywodraeth Cymru fod yn llais cryf o fewn y Deyrnas Unedig ac Ewrop i wthio i gael dim mwy nag wyth awr o amser teithio i bob anifail sy'n teithio i'w lladd neu i'w 'pesgi ymhellach' ar draws yr UE.